



# Modiwl 2B

Awst 2022

# AMLINELLIAD AMODOL O'R CWMPAS

## (yn amodol ar gyflwyniadau gan Cyfranogwyr Craidd a Chwnsler i'r Ymchwiliad)

Bydd y modiwl yn edrych ar, ac yn gwneud argymhellion am benderfyniadau gwleidyddol a gweinyddol craidd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pandemig Covid-19 rhwng dechrau Ionawr 2020 a Mai 2022 pan gafodd y cyfyngiadau Covid-19 oedd yn weddill ar y pryd eu codi yng Nghymru. Bydd yn archwilio'r broses o wneud penderfyniadau gan grwpiau ac unigolion allweddol o fewn y llywodraeth yng Nghymru gan gynnwys y Prif Weinidog a Gweinidogion eraill Cymru, yn enwedig rhwng dechrau Ionawr a diwedd mis Mawrth 2020 pan osodwyd y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf. Ymgwymerir ag ystyriaeth fanylach o nifer o brif feysydd ac effaith y pandemig ar y meysydd hynny yng Nghymru yn ddiweddarach yn yr Ymchwiliad.

Bydd Modiwl 2B yn archwilio:

1. Strwythurau Llywodraeth Cymru a'r priff gyrff o'i mewn oedd yn cymryd rhan yn ymateb Cymru i'r pandemig a'u perthnasoedd a'u cyfathrebiadau â Llywodraeth y DU, gweinyddiaethau datganoledig eraill ac awdurdodau lleol yng Nghymru.
2. Dealltwriaeth gychwynnol Llywodraeth Cymru o, ac ymateb i ledaeniad Covid-19 yng Nghymru yn y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2020 yng ngoleuni gwybodaeth a chyingor a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU a chyrrff rhyngwladol a chenedlaethol perthnasol eraill, cyngor gan gynghorwyr gwyddonol, meddygol ac eraill ac ymateb gwledydd eraill.
3. Penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â gosod neu beidio gosod ymyriadau anfferyllol (NPlau) gan gynnwys cyfyngiadau symud, cyfyngiadau lleol, gweithio o gartref, lleihau cysylltiad unigolyn i unigolyn, cadw pellter cymdeithasol, y defnydd o orchuddion wyneb a rheoli ffiniau yng Nghymru; y raddfa a'r rhesymeg y tu ôl i wahaniaethau mewn ymagwedd rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraethau eraill yn y DU; amseroldeb a rhesymoldeb y fath NPlau, gan gynnwys yr effeithiau

tebygol pe byddai penderfyniadau i ymyrryd wedi cael eu cymryd yn gynharach neu'n wahanol; datblygiad yr ymagwedd at NPlau yng ngoleuni dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'u heffaith ar drosglwyddiad, heintiad a marwolaeth; yr adnabyddiaeth o grwpiau mewn perygl a rhai eraill agored i niwed yng Nghymru a'r asesiad o effaith debygol yr NPlau arfaethedig ar y fath grwpiau yn ngoleuni anghydraddoldebau sy'n bodoli; a'r effaith, os o gwbl, o gyllido ymateb Cymru i'r pandemig ar y fath benderfyniadau, gan gynnwys cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU.

4. Mynediad at a defnydd mewn gwneud penderfyniadau o arbenigedd meddygol a gwyddonol, casglu a modelu data'n ymwneud â lledaeniad y feirws yng Nghymru; mesur a deall y cyfraddau trosglwyddiad, heintiad, mwntaniad, ailheintiad a marwolaeth yng Nghymru; a'r berthynas rhwng a gweithrediad o systemau perthnasol ar gyfer casglu, modelu a dosbarthu data.
5. Cyfathrebiadau iechyd cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas a'r camau sy'n cael eu cymryd i reoli lledaeniad y feirws; tryloywder y negeseuon; y defnydd o reoli ymddygiad a chynnal hyder cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys effaith unrhyw doriadau honedig o reolau a safonau gan Weinidogion, swyddogion a chynghorwyr.
6. Y ddeddfwriaeth a rheoliadau iechyd cyhoeddus a choronafeirws a gafodd eu cynnig a'u deddfu: eu cymesuroldeb a'u gorfodaeth ledled Cymru.



© Crown copyright 2022

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit

[nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

This publication is available at <https://covid19.public-inquiry.uk/>

Any enquiries regarding this publication should be sent to us at [contact@covid19.public-inquiry.uk](mailto:contact@covid19.public-inquiry.uk).